Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Asesiad Effaith Integredig
Y Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol

Crynodeb o'r cynnig

Mae'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yn nodi dull trawslywodraethol o wella deilliannau llythrennedd a rhifedd i blant yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn sefydlu fframwaith polisi cenedlaethol sy'n cwmpasu plentyndod cynnar, ysgolion, teuluoedd, cymunedau a gwasanaethau ehangach, gan ganolbwyntio ar godi safonau, lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad a sicrhau mwy o degwch. Mae'n cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, asesu, dysgu proffesiynol, ymgysylltu â theuluoedd, gwella ysgolion, presenoldeb, datblygu'r Gymraeg a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau ychwanegol i ddysgu.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys cynigion i gryfhau dulliau addysgu llythrennedd a rhifedd drwy roi mwy o eglurder i ymarferwyr ynghylch yr hyn y mae angen i ddysgwyr ei ddysgu a phryd, wrth iddynt symud ymlaen drwy eu haddysg. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid ac ymgynghorir arno yn ystod tymor yr hydref. Caiff canllawiau eu cyhoeddi yng ngwanwyn 2027, wedi'u hategu gan adnoddau a chyfleoedd dysgu proffesiynol.

Er bod y Cynllun yn pennu'r cyfeiriad strategol a'r fframwaith ar gyfer gwella, mae'r effeithiau a aseswyd yn yr Asesiad Effaith Integredig hwn yn ymwneud yn bennaf â rhoi'r gweithgareddau a'r cynigion a nodir yn y Cynllun ar waith. Disgwylir i'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol drwy wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, cryfhau cynnydd dysgwyr, lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad, cefnogi dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i gyrhaeddiad addysgol, a gwella cyfleoedd addysgol, llesiant a chyfleoedd bywyd tymor hwy. Bydd maint a natur yr effeithiau hynny yn dibynnu ar roi'r gweithgareddau a'r cynigion ar waith yn effeithiol a monitro deilliannau'n barhaus.

Cwestiynau ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1. **Sut mae'r pum ffordd o weithio wedi llywio datblygiad y polisi neu'r ddeddfwriaeth hon a'r broses o'u rhoi ar waith?**
   Datblygwyd y Cynllun gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac mae'n adlewyrchu'r pum ffordd o weithio.

   Y tymor hir
   Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar wella sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol o'r blynyddoedd cynharaf hyd at ddiwedd addysg orfodol. Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd cryf yn sail i gyrhaeddiad addysgol, cyflogadwyedd, llesiant, cyfranogiad dinesig a dysgu gydol oes, sy'n golygu eu bod yn benderfynyddion llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor allweddol.

   Atal
   Mae'r Cynllun yn blaenoriaethu ymyrraeth gynnar ac atal. Bwriedir i gamau gweithredu fel cryfhau cymorth i ymarferwyr plentyndod cynnar, datblygiad lleferydd ac iaith, dysgu fel teulu, presenoldeb ac olrhain dysgwyr nodi problemau'n gynnar ac atal bylchau mewn cyrhaeddiad rhag lledu dros amser.

   Integreiddio
   Mae'r Cynllun yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru, Cymraeg 2050, canllawiau Ysgolion Bro, diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, prosesau gwella

presenoldeb, llesiant dysgwyr, amcanion tlodi plant a gweithgarwch gwella addysg ehangach. Mae'n cydnabod llythrennedd a rhifedd fel sylfeini trawsbynciol sy'n cefnogi cynnydd ym mhob agwedd ar ddysgu a datblygiad.

Cydweithio
Lluniwyd y Cynllun drwy ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr polisi sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, y cwricwlwm ac asesu, safonau, gwella ysgolion, y Gymraeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), tegwch a chynwysoldeb ac ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn wedi'i ategu gan fewnbwn gan aelodau'r Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd. Bydd y broses o roi'r Cynllun ar waith a'i gyflawni yn cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, darparwyr gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, Dysgu, Adnodd, CAL:ON, sefydliadau addysg uwch, ymarferwyr, teuluoedd a phartneriaid cymunedol.

Cynnwys
Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu gan ddefnyddio tystiolaeth ymchwil, arbenigedd ymarferwyr a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd y broses o'i roi ar waith yn barhaus yn cynnwys partneriaid cyflawni, ysgolion, awdurdodau lleol, dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach, lle y bo'n briodol, wrth fireinio adnoddau, dysgu proffesiynol, trefniadau cymorth a gweithgarwch gweithredu sy'n deillio o'r Cynllun.

2. **Gyda phwy rydych wedi cydweithio a phwy rydych wedi'u cynnwys wrth ddatblygu'r cynnig, ac i ddeall ei effeithiau, gan gynnwys effeithiau ar bobl, aelwydydd, cyrff cyhoeddus, busnesau a'r trydydd sector (e.e. drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol neu ymgynghori â'r cyhoedd?)**
Datblygwyd y Cynllun drwy ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr polisi sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, y cwricwlwm ac asesu, safonau, gwella ysgolion, y Gymraeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), tegwch a chynwysoldeb ac ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn wedi'i ategu gan fewnbwn gan aelodau'r Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd, ochr yn ochr ag ystyried tystiolaeth a chyngor gan Estyn, partneriaid addysg a sefydliadau cyflawni cenedlaethol.

   Bydd y gwaith o'i gyflawni yn cynnwys cydweithio â Dysgu, Adnodd, CAL:ON, ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch, darparwyr gofal plant a gwaith chwarae, rhieni a gofalwyr, sefydliadau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

3. **Sut mae'r polisi yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy a chanlyniadau llesiant hirdymor?**
Mae'r Cynllun yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu cynaliadwy drwy wella'r sgiliau sylfaenol sy'n cefnogi dysgu gydol oes, symudedd cymdeithasol, llesiant, dinasyddiaeth weithredol a chyfranogiad economaidd.

   Drwy gryfhau deilliannau llythrennedd a rhifedd a lleihau anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad, mae'r Cynllun yn ceisio gwella cyfleoedd i ddysgwyr drwy gydol eu bywydau gan helpu i dorri cylchoedd anfantais addysgol ar yr un pryd. Mae'r pwyslais ar ymyrraeth gynnar, cymorth i deuluoedd, datblygu ymarferwyr a gwelliant

sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cefnogi dulliau ataliol a chynaliadwy o gyflawni polisïau.

Disgwylir i'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun wella'r sgiliau sylfaenol sy'n cefnogi dysgu gydol oes, symudedd cymdeithasol, llesiant, dinasyddiaeth weithredol a chyfranogiad economaidd.

4. Beth yw'r effeithiau allweddol mewn perthynas â phob un o'r saith nod llesiant?

Cymru Lewyrchus
Effaith: Cadarnhaol Gref
Disgwylir i'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, sy'n hanfodol i gyflawniad addysgol, cyflogadwyedd, datblygiad sgiliau, cynhyrchiant a chyfranogiad economaidd. Mae'r Cynllun yn cefnogi dysgwyr i gaffael y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol.

Cymru Gydnerth
Effaith: Cadarnhaol Fach
Mae'r Cynllun yn cyfrannu'n anuniongyrchol drwy gryfhau gwydnwch addysgol, diddordeb dysgwyr a'r gallu hirdymor i ymateb i newid cymdeithasol ac economaidd. Disgwylir i'r effeithiau amgylcheddol fod yn ddibwys.

Cymru Iachach
Effaith: Cadarnhaol
Mae llythrennedd a rhifedd gwell yn cefnogi ymgysylltiad ag addysg, hyder, llesiant a chyfleoedd bywyd. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â phresenoldeb, llesiant dysgwyr, datblygiad lleferydd ac iaith, ymgysylltu â theuluoedd a chymorth cymunedol.

Cymru sy'n Fwy Cyfartal
Effaith: Cadarnhaol Gref
Mae lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad yn un o amcanion canolog y Cynllun. Rhoddir pwyslais penodol ar gefnogi dysgwyr y mae tlodi yn effeithio arnynt, dysgwyr ag ADY, dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr amlieithog a'r rhai sy'n wynebu rhwystrau eraill i ddysgu.

Cymru o Gymunedau Cydlynus
Effaith: Cadarnhaol
Mae'r Cynllun yn cryfhau gweithgarwch ymgysylltu â theuluoedd, Ysgolion Bro a chydweithio rhwng darparwyr addysg, teuluoedd a gwasanaethau ehangach. Mae'r camau gweithredu hyn yn cefnogi cydberthnasau cymunedol cryfach a chyfranogiad addysgol.

Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu
Effaith: Cadarnhaol Gref
Mae'r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu i wella llythrennedd Cymraeg, cryfhau addysgeg y Gymraeg, cefnogi dilyniant y Gymraeg a chyfrannu at uchelgeisiau

Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Chymraeg 2050.

Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang
Effaith: Cadarnhaol
Drwy wella sgiliau llythrennedd a rhifedd pob dysgwr a lleihau anghydraddoldebau, mae'r Cynllun yn cefnogi dysgwyr i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas, gwerthuso gwybodaeth yn feirniadol a chyfrannu at fyd cymhleth a rhyng-gysylltiedig fel dinasyddion gwybodus.

5. **Pa dystiolaeth, gan gynnwys adroddiadau o dan y Ddeddf, sydd wedi llywio'r polisi, a sut y bydd yn cefnogi'r broses barhaus o wneud penderfyniadau?**

Mae'r Cynllun wedi'i lywio gan amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth, gan gynnwys data a gwybodaeth asesiadau personol Llywodraeth Cymru, data ar bresenoldeb, Patrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018-2025), canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion (Ionawr 2026), adroddiadau Estyn, ymchwil i welliant ym maes llythrennedd a rhifedd, tystiolaeth yn ymwneud ag anfantais economaidd-gymdeithasol, arbenigedd ymarferwyr a thystiolaeth yn ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol.

Mae'r Cynllun hefyd wedi'i lywio gan fersiwn ddrafft Siarad Gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (2026-2030), sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu wrth gefnogi dysgu, datblygiad llythrennedd a chynnydd addysgol plant.

Mae tystiolaeth o'r ffynonellau hyn yn dangos amrywiadau parhaus mewn deilliannau llythrennedd a rhifedd, bylchau parhaus mewn cyrhaeddiad ar gyfer rhai grwpiau o ddysgwyr, a phwysigrwydd ymyrraeth gynnar, addysgu o ansawdd uchel, presenoldeb a chymorth wedi'i dargedu. Mae cyngor arbenigol gan y Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd hefyd wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun.

Caiff y broses o roi'r Cynllun ar waith yn barhaus ei chefnogi gan ddangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, gweithgarwch gwerthuso, data ar bresenoldeb, tystiolaeth asesu a mesurau deilliannau dysgwyr ehangach. Bydd y rhain yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer monitro cynnydd, nodi materion sy'n dod i'r amlwg, llywio buddsoddiad yn y dyfodol a chefnogi gwelliant parhaus ym mhob rhan o'r system addysg.

Crynodeb o'r Asesiadau Effaith ar gyfer y cynnig hwn

Cyhoeddiad gorfodol (os oes angen yr Asesiad Effaith)

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiadau Effaith Eraill

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Proses Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data

Wedi'i chwblhau: **Ydy**

Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth

Wedi'i gwblhau: **Nid oes angen yr asesiad ar gyfer y cynnig hwn**

Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Asesiad o'r Effaith ar Reoli Tir yn Gynaliadwy

Wedi'i gwblhau: **Nid oes angen yr asesiad ar gyfer y cynnig hwn**

Asesiad o'r Effaith ar Garbon

Wedi'i gwblhau: **Nid oes angen yr asesiad ar gyfer y cynnig hwn**

Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Ansawdd (Iechyd)

Wedi'i gwblhau: **Nid oes angen yr asesiad ar gyfer y cynnig hwn**

Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol

Wedi'i gwblhau: **Ydy**

Cynnwys

1. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb 8
2. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant 25
3. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ..... **Error! Bookmark not defined.**
4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ..... **Error! Bookmark not defined.**
5. Proses Sgrinio Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data . **Error! Bookmark not defined.**
6. Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth ..... **Error! Bookmark not defined.**
7. Asesiad Adnoddau Naturiol ..... **Error! Bookmark not defined.**
8. Asesiad o'r Effaith o ran Prawfesur Gwledig ..... **Error! Bookmark not defined.**
9. Asesiad o'r Effaith ar Reoli Tir yn Gynaliadwy ..... **Error! Bookmark not defined.**
10. Asesiad o'r Effaith ar Garbon ..... **Error! Bookmark not defined.**
11. Y Ddyletswydd Ansawdd (Iechyd) ..... **Error! Bookmark not defined.**
12. Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol ... **Error! Bookmark not defined.**
13. Datganiad ..... **Error! Bookmark not defined.**

1. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

A. Y Cynnig

1. Teitl y cynnig

Y Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol

2. Beth yw nod eich cynnig?

Mae'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yn sefydlu fframwaith polisi cenedlaethol. Mae'r effeithiau ar gydraddoldeb a aseswyd isod yn ymwneud yn bennaf â rhoi'r gweithgareddau a'r cynigion a nodir yn y Cynllun ar waith. Disgwyliwn weld effeithiau cadarnhaol drwy welliannau i addysgu, dysgu proffesiynol, trefniadau asesu, ymgysylltu â theuluoedd, presenoldeb, datblygiad y Gymraeg a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i gyrhaeddiad addysgol. Bydd maint yr effaith yn dibynnu ar roi'r gweithgareddau a'r cynigion ar waith yn effeithiol a monitro deilliannau'n barhaus.

Datblygwyd y Cynllun gan roi sylw penodol i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i gyrhaeddiad addysgol, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgwyr y mae tlodi yn effeithio arnynt, dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr amlieithog a'r rhai y mae angen cymorth wedi'i dargedu arnynt i gael mynediad at ddysgu.

Mae'n seiliedig ar amrywiaeth eang o bolisïau, rhaglenni a thystiolaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3
- Y Cwricwlwm i Gymru
- Egwyddorion ar gyfer Addysgu Iaith a Llythrennedd yng Nghymru
- Asesiadau Personol
- Y Fframwaith Dysgu fel Teulu
- Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Ymchwil ar Degwch a Chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru
- Data'r Cyfrifiad Ysgolion
- Patrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025).
- *Siarad gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni Drafft ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026-2030*.
- Tystiolaeth yn ymwneud â'r Fframwaith Dysgu fel Teulu ac Ysgolion Bro.

Cafodd pwyslais y Cynllun ar addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, datblygu iaith a llythrennedd, cynnydd dysgwyr, ymgysylltu â theuluoedd a chymorth wedi'i dargedu ei lywio gan dystiolaeth. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd sylfeini llythrennedd, iaith a rhifedd cryf o'r blynyddoedd cynharaf, ymgysylltu effeithiol â theuluoedd a'r gymuned, camau pontio llwyddiannus i ddysgwyr, a chymorth amserol i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i gyflawni. Mae tystiolaeth hefyd yn dangos y rôl sylweddol y mae llythrennedd a rhifedd yn ei chwarae wrth gefnogi cyrhaeddiad addysgol, llesiant, cyfranogiad a chyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun yn helpu i gyflawni Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol Llywodraeth Cymru 2025 i 2029 ac yn cyfrannu'n benodol at Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 1, 3 a 5. Drwy wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad a sicrhau mynediad tecach at gymorth addysgol o ansawdd uchel, nod y Cynllun yw cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ffynnu, defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol a chymryd rhan lawn mewn addysg, bywyd cymunedol a chymdeithas ehangach.

Mae'r Cynllun hefyd yn cyfrannu at Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2 a 6 drwy gefnogi dysgwyr i feithrin yr wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gafael ar wybodaeth, deall eu hawliau a'u harfer, a symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant a chyflogaeth.

Gan ddefnyddio tystiolaeth o ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar, llythrennedd a rhifedd, ymgysylltu â theuluoedd, tegwch a chynwysoldeb, cynnydd dysgwyr a chyrhaeddiad addysgol, nod y Cynllun yw hyrwyddo cyfle cyfartal, lleihau anghydraddoldebau o ran deilliannau addysgol a galluogi pob dysgwr i wireddu ei botensial, ni waeth beth fo'i gefndir neu nodwedd warchodedig.

3. **Pryd y dechreuodd y gwaith ar y cynnig?**
   Mehefin 2026

4. **Pa sefydliadau, grwpiau neu gymunedau y mae'r Cynllun yn debygol o effeithio arnynt?**

   - Plant 0-16 oed
   - Rhieni, gofalwyr a theuluoedd
   - Ymarferwyr y blynyddoedd cynnar
   - Darparwyr gofal plant a lleoliadau nas cynhelir a ariennir
   - Athrawon ac arweinwyr ysgolion
   - Cynorthwywyr addysgu a staff cymorth eraill mewn ysgolion
   - Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
   - Dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal
   - Dysgwyr y mae tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt
   - Dysgwyr amlieithog, gan gynnwys dysgwyr y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt
   - Dysgwyr anabl a dysgwyr ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
   - Awdurdodau lleol
   - Dysgu, Athrofa, Adnodd a phartneriaid cyflawni eraill
   - Sefydliadau cymunedol, gwasanaethau cymorth i deuluoedd ac Ysgolion Bro
   - Darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) a darparwyr dysgu proffesiynol.

5. **A ydych wedi cofrestru eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar iShare?**

   Rhaid i chi gofrestru eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fyddwch yn dechrau datblygu eich cynnig.

   ydw

B. Yr effaith ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig, a gweithgarwch ymgysylltu â nhw

OEDRAN

1. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
   Bwriedir i'r Cynllun wella deilliannau llythrennedd a rhifedd ar bob cam o daith y dysgwr o'i enedigaeth hyd at 16 oed. Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun gan amrywiaeth o bolisïau, rhaglenni a thystiolaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3, y Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir, Egwyddorion ar gyfer Addysgu Iaith a Llythrennedd yng Nghymru (2026), Asesiadau Personol 2025 i 2026, a dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Batrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025).

   Mae'r dystiolaeth hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd sylfeini llythrennedd a rhifedd cryf o'r blynyddoedd cynharaf ac yn dangos y rôl y mae'r sgiliau hyn yn ei chwarae wrth gefnogi cyrhaeddiad addysgol, cynnydd dysgwyr, llesiant a chyfleoedd yn y dyfodol. Mae tystiolaeth yn ymwneud â datblygu sgiliau darllen, ymgysylltu â theuluoedd, cynnydd dysgwyr a thegwch mewn addysg hefyd yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymyrryd yn gynnar, pontio effeithiol a chymorth wedi'i dargedu i wella deilliannau a lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad.

   Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Batrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025) yn nodi amrywiadau mewn cyrhaeddiad ar bob cam o daith y dysgwr ac yn cefnogi'r angen am ddull cydlynol o ddatblygu llythrennedd a rhifedd o blentyndod cynnar hyd at ddiwedd addysg orfodol. Mae tystiolaeth o adroddiadau thematig Estyn yn tynnu sylw at amrywiadau o ran ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau dysgwyr, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Mae tystiolaeth o Datblygu medrau darllen Saesneg disgyblion o 10 i 14 mlwydd oed a Datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion 10 i 14 oed yn tynnu sylw pellach at bwysigrwydd rhuglder darllen, dealltwriaeth a datblygu sgiliau darllen yn barhaus wrth gefnogi cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.

   Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn atgyfnerthu'r angen am ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd fwy cyson, defnydd gwell o wybodaeth asesu a chymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr ar adegau allweddol ar eu taith addysgol.

2. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**
   Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch effaith hirdymor y dangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol newydd, y diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer y dyfodol. Daw effaith y mesurau hyn yn gliriach drwy brosesau gweithredu, gweithgarwch gwerthuso parhaus, a gwaith dadansoddi data ar gyrhaeddiad a chynnydd yn y dyfodol.

3. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
   Datblygwyd y Cynllun drwy ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr polisi sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, y cwricwlwm ac asesu, safonau, gwella ysgolion, y Gymraeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), tegwch a chynwysoldeb ac ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn wedi'i ategu gan fewnbwn gan aelodau'r Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd.

Bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dystiolaeth a gwersi a ddysgwyd o bolisïau, rhaglenni ac ymchwil cysylltiedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys yr Egwyddorion ar gyfer Addysgu Iaith a Llythrennedd yng Nghymru, Patrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025), Asesiadau Personol, Ymchwil ar Degwch a Chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, a'r Fframwaith Dysgu fel Teulu.

4. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**
Cafodd pwyslais y Cynllun ar gefnogi dysgwyr o'r blynyddoedd cynharaf a chynnal dull cydlynol ar draws y continwwm 0 i 16 oed ei lywio gan dystiolaeth yn ymwneud â datblygiad yn ystod plentyndod cynnar, caffael iaith, a sut mae plant yn dysgu ac yn gwneud cynnydd mewn llythrennedd a rhifedd. Cafodd y cynigion i roi mwy o eglurder drwy fanylion o flwyddyn i flwyddyn eu llywio gan dystiolaeth sy'n tynnu sylw at amrywiadau mewn deilliannau dysgwyr a dulliau o gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd. Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â datblygiad darllen hefyd wedi llywio'r camau gweithredu yn y Cynllun i gryfhau addysgu darllen cynnar drwy hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys Ffoneg Synthetig Systematig (Systematic Synthetic Phonics, SSP), er mwyn cefnogi cysondeb mewn ymarfer a gwella deilliannau darllen i ddysgwyr.

Gall rhoi mwy o eglurder ynghylch dysgu a datblygiad disgwyliedig gefnogi addysgu mwy cyson ledled Cymru. Cafodd yr ymrwymiadau yn ymwneud ag ymyrryd yn gynnar, presenoldeb, cynnydd dysgwyr, trefniadau pontio a chymorth wedi'i dargedu eu llywio gan dystiolaeth o ddata ar gyrhaeddiad, asesiadau personol, Patrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025), ac ymchwil ar ddatblygu sgiliau darllen. Cafodd y camau gweithredu i gryfhau cymorth i rieni, gofalwyr a chymunedau eu llywio gan dystiolaeth sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â theuluoedd. Cafodd ffocws y Cynllun ar leihau bylchau mewn cyrhaeddiad a chefnogi dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i gyflawniad addysgol eu llywio gan dystiolaeth yn ymwneud â thegwch a chynwysoldeb.

Cafodd y gwaith o ddatblygu'r dangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol i gefnogi gwaith parhaus i fonitro a gwerthuso deilliannau hefyd ei lywio gan ddadansoddiad o dueddiadau o ran cyrhaeddiad a chynnydd.

5. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**
Disgwylir i'r cynigion a'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc ym mhob grŵp oedran drwy wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, helpu i nodi anghenion yn gynnar, cryfhau llwybrau cynnydd a hyrwyddo cymorth parhaus drwy gydol taith y dysgwr. Disgwylir i'r camau gweithredu yn y Cynllun helpu i leihau bylchau mewn cyrhaeddiad a sicrhau deilliannau addysgol tecach.

6. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**

Caiff cynnydd ei fonitro drwy ddangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, data ar bresenoldeb ac absenoldeb cyson, asesiadau personol, data ar gyrhaeddiad a chynnydd, a gweithgarwch gwerthuso ehangach. Bydd gwaith monitro yn helpu i nodi a yw deilliannau'n gwella'n deg ar draws grwpiau oedran ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i gefnogi dysgwyr ar gamau datblygu gwahanol. Bydd y canfyddiadau'n llywio gweithgarwch gweithredu yn y dyfodol ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg neu effeithiau anfwriadol.

ANABLEDD

7. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
Mae dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn parhau i wynebu rhwystrau i gyrhaeddiad addysgol ac yn aml mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddysgu a gwneud cynnydd ym maes llythrennedd a rhifedd. Mae tystiolaeth o bolisi ADY Llywodraeth Cymru, data'r Cyfrifiad Ysgolion ac ymchwil addysgol ehangach yn dangos ei bod yn fwy tebygol bod angen cymorth wedi'i deilwra ar ddysgwyr ag ADY i ddysgu a chyflawni'r cynnydd disgwyliedig.

   Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yw'r categori mwyaf o ADY a nodwyd yng Nghymru. Mae tystiolaeth o'r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol a chynllun cyflawni drafft Siarad Gyda Fi 2 (2026 i 2030) yn tynnu sylw at bwysigrwydd nodi anghenion ac ymyrryd yn gynnar, gan gydnabod bod sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn sail i ddatblygu llythrennedd, dysgu a gwneud cynnydd addysgol. Mae tystiolaeth ehangach gan Speech and Language UK, y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar a'r Sefydliad Gwaddol Addysgol yn dangos y cysylltiad agos rhwng datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, cyrhaeddiad mewn llythrennedd, llesiant a deilliannau addysgol yn y dyfodol.

   Mae ymchwil ar degwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, tystiolaeth o asesiadau personol, a dadansoddiad ehangach o ddeilliannau dysgwyr hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau cynhwysol, trefniadau asesu effeithiol a chymorth amserol i alluogi dysgwyr ag ADY i wneud cynnydd ochr yn ochr â'u cyfoedion.

8. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**
Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch effaith hirdymor diwygiadau ADY, datblygiadau o ran trefniadau asesu ac effeithiolrwydd ymyriadau penodol o ran gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr ag ADY. Daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg drwy roi diwygiadau ADY, fersiwn ddrafft Siarad Gyda Fi 2, asesiadau personol a gweithgarwch gwella addysgol ehangach ar waith, eu monitro a'u gwerthuso.

9. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Datblygwyd y Cynllun drwy ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr polisi sy'n gweithio ym maes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), lleferydd, iaith a chyfathrebu, tegwch a chynwysoldeb, a chynnydd dysgwyr. Mae hyn wedi'i ategu gan fewnbwn gan aelodau'r Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd.

   Bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi

cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dystiolaeth a gwersi a ddysgwyd o bolisïau, rhaglenni ac ymchwil cysylltiedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys diwygiadau ADY, fersiwn ddrafft Siarad Gyda Fi 2, ymchwil ar degwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, ac asesiadau personol. Canolbwyntiodd y gweithgarwch ymgysylltu a'r trafodaethau ar ddeall rhwystrau i gyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd, nodi dulliau effeithiol o gefnogi dysgwyr ag ADY, a llywio'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn y Cynllun.

Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i lywio'r gwaith o gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

10. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**
Cafodd y camau gweithredu penodol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun mewn perthynas â nodi anghenion yn gynnar, ymyriadau wedi'u targedu a chymorth i ddysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddysgu llythrennedd a rhifedd eu llywio gan dystiolaeth yn ymwneud â bylchau mewn cyrhaeddiad a wynebir gan ddysgwyr ag ADY, ynghyd â thystiolaeth o bwysigrwydd datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu. Cafodd y cynigion i roi mwy o eglurder drwy fanylion o flwyddyn i flwyddyn eu llywio gan dystiolaeth sy'n tynnu sylw at amrywiadau mewn deilliannau dysgwyr a dulliau o gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd. Gall rhoi mwy o eglurder ynghylch dysgu a datblygiad disgwyliedig gefnogi dulliau addysgu ac asesu mwy cyson ledled Cymru, gan helpu ymarferwyr i nodi dysgwyr y mae angen cymorth neu her ychwanegol arnynt, leihau amrywiadau o ran profiadau dysgwyr.

Cafodd pwysigrwydd cefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, gan gydnabod bod y sgiliau hyn yn sail i ddatblygiad llythrennedd, cyfranogiad addysgol a chynnydd dysgwyr, ei atgyfnerthu gan dystiolaeth o fersiwn ddrafft Siarad Gyda Fi 2 (2026 i 2030), asesiadau personol ac ymchwil ehangach ar leferydd, iaith a chyfathrebu.

Cafodd pwyslais y Cynllun ar ymarfer cynhwysol, dysgu proffesiynol, cynnydd dysgwyr a defnyddio gwybodaeth am asesiadau a chyrhaeddiad i nodi anghenion a monitro deilliannau dros amser ei lywio gan bolisi ADY, ymchwil ar degwch a chynwysoldeb a thystiolaeth o asesiadau.

11. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**
Disgwylir i'r camau gweithredu sy'n ymwneud â nodi anghenion yn gynnar, adnoddau asesu dwyieithog, dysgu proffesiynol a chymorth wedi'i dargedu yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr anabl a dysgwyr ag ADY drwy wella'r broses o nodi anghenion, ymyrryd yn gynt, cryfhau cymorth mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd, cynnig mwy o gyfleoedd i gael cymorth priodol, a sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd a chynwysoldeb.

12. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Bydd adnoddau dwyieithog, dysgu proffesiynol cryfach, trefniadau asesu gwell a chanllawiau cliriach yn helpu i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei roi ar waith yn deg. Caiff

cynnydd ei fonitro drwy ddata ar gyrhaeddiad, asesiadau personol, gweithgarwch gwerthuso ehangach a dangosyddion perthnasol i nodi a yw deilliannau dysgwyr ag ADY yn gwella ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

HIL

13. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
Mae data'r Cyfrifiad Ysgolion yn dangos amrywiaeth ethnig ac ieithyddol dysgwyr yng Nghymru ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod cymorth o ansawdd uchel mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd ar gael i bob dysgwr. Mae tystiolaeth o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ymchwil ar degwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, a thystiolaeth ehangach Llywodraeth Cymru yn ymwneud â dysgwyr amlieithog yn dangos y gall rhai dysgwyr ethnig leiafrifol a dysgwyr amlieithog wynebu rhwystrau i gyrhaeddiad addysgol, cyfranogiad a chynnydd. Mae'r dystiolaeth hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd dulliau sy'n ymateb i ddiwylliant, cyfleoedd teg i gael cymorth, a gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â theuluoedd a chymunedau wrth wella deilliannau a lleihau anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad.

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Batrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025), ynghyd â thystiolaeth o'r Cwricwlwm i Gymru, asesiadau personol a'r Fframwaith Dysgu fel Teulu yn tynnu sylw pellach at bwysigrwydd cyfle teg i ddysgu, gweithgarwch ymgysylltu â theuluoedd cryf, dulliau diwylliannol gynhwysol a chymorth wedi'i dargedu i wella deilliannau grwpiau amrywiol o ddysgwyr. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall cryfhau'r ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd, gan gydnabod cefndiroedd ieithyddol a diwylliannol dysgwyr, gefnogi cyrhaeddiad, cynnydd a chyfranogiad gwell.

14. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael o hyd ar gyfer rhai grwpiau ethnig lleiafrifol a chymunedau ieithyddol oherwydd argaeledd a chadernid data. Daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg drwy ymchwil barhaus, gweithgarwch gwerthuso a'r broses o roi polisïau sy'n ymwneud â dysgwyr amlieithog, addysg wrth-hiliol a thegwch mewn addysg ar waith. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth yn ymwneud â dysgwyr sy'n siarad Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd cymunedol eraill yn ychwanegol at y rhai a siaredir gartref.

15. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Datblygwyd y Cynllun drwy ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr polisi sy'n gweithio ym maes y Cwricwlwm i Gymru, tegwch a chynwysoldeb, y Gymraeg, dysgwyr amlieithog, ymgysylltu â theuluoedd a chynnydd dysgwyr. Mae hyn wedi'i ategu gan fewnbwn gan aelodau'r Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd.

Bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol.

Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dystiolaeth a gwersi a ddysgwyd o bolisïau, rhaglenni ac ymchwil cysylltiedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ymchwil ar degwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, ac Ysgolion Bro. Cafodd pwysigrwydd ymgysylltu â rhieni ac amgylcheddau dysgu yn y cartref wrth gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd ei atgyfnerthu gan dystiolaeth o'r Fframwaith Dysgu fel Teulu. Canolbwyntiodd y gweithgarwch ymgysylltu a'r trafodaethau hefyd ar ddeall rhwystrau i gyrhaeddiad, gwella cyfleoedd i gael cymorth mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd, a sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu anghenion dysgwyr o gefndiroedd ethnig ac ieithyddol amrywiol.

Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i lywio'r gwaith o gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

16. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**
Cafodd y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys i gryfhau cymorth i ddysgwyr amlieithog a hyrwyddo dulliau diwylliannol gynhwysol o ddatblygu llythrennedd a rhifedd eu llywio gan dystiolaeth yn ymwneud â dysgwyr amlieithog, cyrhaeddiad dysgwyr ethnig lleiafrifol a thegwch mewn addysg. Cafodd yr ymrwymiadau i ddatblygu adnoddau a deunydd cyfathrebu sy'n helpu i ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannol amrywiol hefyd eu llywio gan dystiolaeth sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â theuluoedd, adnoddau dysgu hygyrch ac ymarfer sy'n ymateb i ddiwylliant.

17. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**
Disgwylir i'r cynigion a'r gweithgareddau yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr o gefndiroedd ethnig ac ieithyddol amrywiol drwy wella'r gallu i gael cymorth mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd, cryfhau cymorth i ddysgwyr amlieithog, a dulliau mwy cynhwysol o ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd.

18. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Caiff adnoddau a deunyddiau ategol eu datblygu yn Gymraeg a Saesneg a, lle y bo'n briodol, byddant ar gael mewn ieithoedd cymunedol ychwanegol er mwyn sicrhau bod dysgwyr o gefndiroedd amlieithog yn cael yr un budd ohonynt. Caiff cynnydd ei fonitro drwy ddata ar gyrhaeddiad, asesu a gwerthuso, ac ystyrir a yw deilliannau'n gwella mewn modd teg i ddysgwyr o gefndiroedd ethnig ac ieithyddol gwahanol. Bydd y canfyddiadau yn llywio gweithgarwch gweithredu yn y dyfodol ac unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg neu effeithiau anfwriadol.

CREFYDD, CRED NEU DDIFFYG CRED

19. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y camau gweithredu yn y Cynllun yn effeithio'n wahanol ar ddysgwyr oherwydd eu crefydd, eu cred neu eu diffyg cred yn

unig. Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun gan dystiolaeth yn ymwneud â datblygiad llythrennedd a rhifedd, cynnydd dysgwyr, ymgysylltu â theuluoedd, y Cwricwlwm i Gymru a thegwch mewn addysg. Nid yw'r gwaith o ystyried y dystiolaeth hon wedi nodi unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig yn benodol â chrefydd, cred neu ddiffyg cred. Mae tystiolaeth yn ymwneud â llythrennedd, datblygiad iaith a chyfranogiad addysgol yn dangos pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd wrth gefnogi gallu dysgwyr i gael gafael ar wybodaeth, defnyddio deunyddiau addysgol a chymryd rhan lawn mewn addysg, bywyd cymunedol a gweithgareddau diwylliannol ehangach. Er nad oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n dangos effeithiau gwahaniaethol ar gyfer y nodwedd warchodedig hon, disgwylir i bwyslais y Cynllun ar gyfle teg i ddysgu a chynnydd dysgwyr fod o fudd i ddysgwyr o bob cefndir ffydd, cred a diffyg cred.

20. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n archwilio'n benodol y cysylltiad rhwng ymyriadau llythrennedd a rhifedd a chrefydd, cred neu ddiffyg cred. Er nad oes unrhyw dystiolaeth wedi'i nodi sy'n awgrymu effeithiau gwahaniaethol, gan nad oes tystiolaeth benodol ar gael, bydd unrhyw effeithiau sy'n dod i'r amlwg yn parhau i gael eu hystyried drwy brosesau gweithredu, gwaith monitro ac adborth gan randdeiliaid.

21. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch ymgysylltu penodol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru, ac i fod o fudd i ddysgwyr o bob cefndir ffydd, cred a diffyg cred. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun. Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â chrefydd, cred neu ddiffyg cred. Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac i ystyried unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon wrth gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

22. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**
Wrth ystyried y nodwedd warchodedig hon, atgyfnerthwyd pwysigrwydd sicrhau bod y Cynllun, adnoddau cysylltiedig a deunyddiau ategol yn gynhwysol ac yn hygyrch i ddysgwyr o bob cefndir, ffydd a systemau cred. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn golygu bod angen gwneud newidiadau sylweddol i'r cynigion polisi.

23. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?
Disgwylir i'r cynigion a'r gweithgareddau yn y Cynllun gael effaith niwtral ar ddysgwyr o bob cefndir ffydd, cred a diffyg cred drwy sicrhau deilliannau llythrennedd a rhifedd gwell, mwy o gyfleoedd dysgu a chynnydd addysgol gwell. Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â chrefydd, cred neu ddiffyg cred.

24. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Bydd deunyddiau, canllawiau a chymorth a ddatblygir drwy'r Cynllun yn parhau i adlewyrchu dulliau cynhwysol a byddant yn cael eu dylunio i fod yn hygyrch i ddysgwyr o gefndiroedd amrywiol. Caiff effeithiau ar gydraddoldeb eu monitro drwy weithgarwch

gweithredu a gwerthuso er mwyn nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol neu faterion sy'n dod i'r amlwg.

RHYW

25. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
Mae tystiolaeth ryngwladol, gan gynnwys PISA a thystiolaeth asesu ehangach, yn dangos gwahaniaethau rhwng patrymau cyrhaeddiad cyfartalog bechgyn a merched mewn llythrennedd a rhifedd. Mae tystiolaeth o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o Batrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025), Asesiadau Personol ac ymchwil addysgol ehangach yn dangos gwahaniaethau rhwng patrymau cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn llythrennedd a rhifedd. Mae tystiolaeth yn dangos bod y gwahaniaethau hyn yn amrywio rhwng cyfnodau addysgol gwahanol a rhwng llythrennedd a rhifedd, gan dynnu sylw at bwysigrwydd monitro deilliannau, deall amrywiadau mewn cyrhaeddiad, a sicrhau bod cymorth yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dystiolaeth ehangach o bolisïau ar y cwricwlwm, asesu a chynnydd dysgwyr, gan gynnwys Asesiadau Personol a'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n pwysleisio pwysigrwydd deall amrywiadau mewn deilliannau dysgwyr a sicrhau cyfleoedd teg i bob dysgwr wneud cynnydd.

26. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?
Mae ansicrwydd o hyd ynghylch i ba raddau y gall camau gweithredu unigol yn y Cynllun effeithio ar wahaniaethau rhwng deilliannau llythrennedd a rhifedd bechgyn a merched dros amser. Caiff effaith y Cynllun ar y patrymau hyn ei monitro drwy weithgarwch gwerthuso, data ar gyrhaeddiad a gwaith dadansoddi dangosyddion cenedlaethol yn y dyfodol.

27. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Datblygwyd y Cynllun drwy ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr polisi sy'n gweithio ym maes y cwricwlwm ac asesu, cynnydd dysgwyr, tegwch a chynwysoldeb, presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol. Mae hyn wedi'i ategu gan fewnbwn gan aelodau'r Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd.

Bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dystiolaeth a gwersi a ddysgwyd o bolisïau, rhaglenni ac ymchwil cysylltiedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Patrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025), Asesiadau Personol a'r Cwricwlwm i Gymru. Canolbwyntiodd y gweithgarwch ymgysylltu a'r trafodaethau ar ddeall ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeilliannau llythrennedd a rhifedd, nodi dulliau effeithiol o wella

cyrhaeddiad ac ystyried sut y gellir monitro cynnydd ar draws grwpiau gwahanol o ddysgwyr.

Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i lywio'r gwaith o gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

28. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**
Cafodd pwyslais y Cynllun ar welliant sy'n seiliedig ar dystiolaeth, cynnydd dysgwyr a threfniadau monitro cadarn ei lywio gan dystiolaeth sy'n dangos amrywiadau mewn deilliannau llythrennedd a rhifedd rhwng grwpiau o ddysgwyr. Cafodd y gwaith o ddatblygu dangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol ei lywio gan ddadansoddiad o dystiolaeth asesu a chyrhaeddiad, a gryfhaodd hefyd y ffocws ar gasglu a dadansoddi data yn ôl nodweddion dysgwyr, gan gynnwys rhyw, er mwyn deall a yw deilliannau'n gwella'n deg ac a yw bylchau mewn cyrhaeddiad yn culhau.

29. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**
Disgwylir i'r cynigion a'r gweithgareddau yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr o bob rhyw drwy wella'r ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd, cryfhau cymorth i ddysgwyr amlieithog, a rhoi mwy o ffocws ar nodi gwahaniaethau mewn deilliannau addysgol a mynd i'r afael â nhw.

30. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Caiff dangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, data ar gyrhaeddiad, Asesiadau Personol a gweithgarwch gwerthuso ehangach eu dadansoddi yn ôl rhyw, pan fo'r data yn ddigon cadarn, er mwyn deall a yw deilliannau'n gwella'n deg ac a oes angen cymryd camau pellach i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau mewn cyrhaeddiad. Er mai bwriad y Cynllun yw sicrhau buddiannau i bob dysgwr, mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau presennol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn llythrennedd a rhifedd yn parhau. Bydd mynd ati i fonitro deilliannau yn ôl rhyw yn barhaus yn helpu i nodi unrhyw wahaniaethau sy'n dod i'r amlwg ac yn llywio unrhyw gamau penodol pellach y gall fod angen eu cymryd. Bydd y canfyddiadau yn llywio gweithgarwch gweithredu yn y dyfodol ac unrhyw gymorth ychwanegol y gall fod ei angen.

AILBENNU RHYWEDD

31. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n ymwneud yn benodol â deilliannau llythrennedd a rhifedd ar gyfer dysgwyr sy'n rhannu nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd. Rhoddwyd ystyriaeth i dystiolaeth ehangach Llywodraeth Cymru yn ymwneud â thegwch, cynwysoldeb, llesiant a chyfranogiad addysgol, ynghyd â thystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, ymchwil ar degwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, a thystiolaeth ehangach o gynnydd dysgwyr.

Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod ymyriadau llythrennedd a rhifedd yn effeithio'n wahanol ar ddysgwyr dim ond oherwydd statws ailbennu rhywedd. Fodd

bynnag, mae tystiolaeth ehangach yn ymwneud â thegwch, cynwysoldeb a chyfranogiad addysgol yn dangos y gall rhai dysgwyr trawsryweddol wynebu rhwystrau mewn perthynas â llesiant, cyfranogiad a phrofiad addysgol. Felly, disgwylir i bwyslais y Cynllun ar ymarfer cynhwysol, cynnydd dysgwyr a chyfleoedd teg i gael cymorth fod o fudd i bob dysgwr.

32. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n ymwneud yn benodol â chynnydd a chyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd ar gyfer dysgwyr sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon. O ganlyniad, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a all rhwystrau neu effeithiau penodol ddod i'r amlwg yn ystod y broses weithredu. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hystyried drwy waith monitro a gwerthuso ac adborth gan randdeiliaid.

33. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch ymgysylltu penodol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru ac i fod o fudd i bob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr trawsryweddol neu ddysgwyr sy'n mynd drwy broses ailbennu rhywedd. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun. Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig ag ailbennu rhywedd. Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac i ystyried unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon wrth gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

34. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?
Wrth ystyried y nodwedd warchodedig hon, atgyfnerthwyd pwysigrwydd sicrhau bod y broses o roi'r Cynllun ar waith yn cefnogi pob dysgwr ac yn cyd-fynd ag ymrwymiadau ehangach Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb, cynwysoldeb a llesiant dysgwyr.

35. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?
Disgwylir i'r cynigion a'r gweithgareddau yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr, ni waeth beth fo'u hunaniaeth rhywedd, drwy wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, cryfhau cynnydd dysgwyr, a sicrhau cyfleoedd teg i gael cymorth.

36. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Bydd y broses o roi'r Cynllun ar waith yn parhau i adlewyrchu ymrwymiadau ehangach i gydraddoldeb, cynwysoldeb a llesiant. Bydd gweithgarwch monitro a gwerthuso yn ystyried a oes unrhyw effeithiau anfwriadol yn dod i'r amlwg wrth roi'r Cynllun ar waith ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

CYFEIRIADEDD RHYWIOL

37. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n ymwneud yn benodol â deilliannau llythrennedd a rhifedd yn ôl cyfeiriadedd rhywiol. Rhoddwyd ystyriaeth i dystiolaeth ehangach Llywodraeth Cymru yn ymwneud â thegwch, cynwysoldeb, llesiant a chyfranogiad

addysgol, ynghyd â thystiolaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, ymchwil ar degwch a chynwysoldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, a thystiolaeth ehangach o gynnydd dysgwyr.

Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod ymyriadau llythrennedd a rhifedd yn effeithio'n wahanol ar ddysgwyr dim ond oherwydd cyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ehangach yn ymwneud â thegwch, cynwysoldeb a chyfranogiad addysgol yn dangos y gall rhai dysgwyr LHDT+ wynebu ffactorau sy'n effeithio ar lesiant, cyfranogiad a diddordeb mewn dysgu. Felly, disgwylir i bwyslais y Cynllun ar gynnydd dysgwyr, ymarfer cynhwysol a chyfleoedd teg i gael cymorth fod o fudd i bob dysgwr.

38. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n cysylltu cynnydd a chyrhaeddiad mewn llythrennedd a rhifedd â chyfeiriadedd rhywiol yn benodol. O ganlyniad, mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a all rhwystrau neu effeithiau penodol ddod i'r amlwg yn ystod y broses weithredu. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hystyried drwy waith monitro a gwerthuso ac adborth gan randdeiliaid.

39. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch ymgysylltu penodol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru ac i fod o fudd i bob dysgwr, ni waeth beth fo'i gyfeiriadedd rhywiol. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun. Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol. Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac i ystyried unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon wrth gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

40. **Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?**
Wrth ystyried y nodwedd warchodedig hon, atgyfnerthwyd pwysigrwydd sicrhau bod y broses o roi'r Cynllun ar waith yn cefnogi pob dysgwr ac yn cyd-fynd ag ymrwymiadau ehangach Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb, cynwysoldeb a llesiant dysgwyr. Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn golygu bod angen gwneud newidiadau penodol i'r cynigion polisi.

41. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**
Disgwylir i'r cynigion a'r gweithgareddau yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr ni waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol drwy wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, cryfhau cynnydd dysgwyr, a sicrhau cyfleoedd teg i gael cymorth.

42. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Bydd y broses o roi'r Cynllun ar waith yn parhau i adlewyrchu amcanion ehangach o ran cydraddoldeb, cynwysoldeb a llesiant. Bydd gweithgarwch monitro a gwerthuso yn ystyried a oes unrhyw effeithiau anfwriadol yn dod i'r amlwg wrth roi'r Cynllun ar waith ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH

43. **Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.**
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n ymwneud yn benodol â deilliannau llythrennedd a rhifedd dysgwyr y mae beichiogrwydd a mamolaeth yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae tystiolaeth addysgol ehangach sy'n ymwneud â phresenoldeb, cyfranogiad, cynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr yn dangos y gall achosion o darfu ar ddysgu greu rhwystrau ychwanegol i gyflawniad addysgol. Mae tystiolaeth a ystyriwyd wrth ddatblygu'r Cynllun, gan gynnwys tystiolaeth o gynnydd, presenoldeb, cyrhaeddiad a diddordeb dysgwyr, yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymyriadau amserol, dysgu parhaus a chymorth priodol i ddysgwyr y gall mamolaeth a beichiogrwydd darfu ar eu gallu i gymryd rhan mewn addysg.

44. **A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?**
Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n ymwneud yn benodol ag effaith polisi llythrennedd a rhifedd ar ddysgwyr y mae beichiogrwydd a mamolaeth yn effeithio arnynt. O ganlyniad, mae ansicrwydd ynghylch i ba raddau y gall camau gweithredu unigol yn y Cynllun effeithio ar y dysgwyr hyn. Daw rhagor o dystiolaeth i'r amlwg drwy waith monitro a gwerthuso ac ymchwil addysgol ehangach.

45. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch ymgysylltu penodol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru ac i fod o fudd i bob dysgwr. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun. Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a mamolaeth. Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac i ystyried unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon wrth gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

46. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?
Cafodd pwyslais y Cynllun ar gymorth cynnar, olrhain dysgwyr, dysgu parhaus ac ymyriadau wedi'u targedu ei lywio gan dystiolaeth yn ymwneud â chynnydd dysgwyr, presenoldeb, cyfranogiad ac ymyriadau amserol. Wrth ystyried y nodwedd warchodedig hon, atgyfnerthwyd pwysigrwydd cynnal dysgu parhaus a sicrhau cyfleoedd teg i gael cymorth i bob dysgwr.

47. **Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?**
Disgwylir i'r cynigion a'r gweithgareddau yn y Cynllun gael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr y mae beichiogrwydd a mamolaeth yn effeithio arnynt drwy olrhain dysgwyr yn well, sicrhau dysgu parhaus, nodi anghenion yn gynt, darparu ymyriadau wedi'u targedu a chefnogi dysgwyr i barhau i ddysgu a gwneud cynnydd.

48. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Bydd ysgolion a lleoliadau yn parhau i ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr i gefnogi cyfranogiad, cynnydd a dysgu parhaus. Bydd gweithgarwch monitro a

gwerthuso yn ystyried a oes unrhyw effeithiau anfwriadol yn dod i'r amlwg wrth roi'r Cynllun ar waith ac a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i gefnogi'r dysgwyr dan sylw.

PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL

49. Pa dystiolaeth sydd ar gael a beth yw'r ffynhonnell? Dylech gynnwys canfyddiadau unrhyw weithgarwch ymgysylltu.
Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod statws priodasol neu bartneriaeth sifil yn berthnasol i amcanion y Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol neu fod statws priodasol neu bartneriaeth sifil unigolyn yn effeithio ar ei ddeilliannau llythrennedd a rhifedd. Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â'r nodwedd warchodedig hon wrth ystyried y dystiolaeth ehangach a ddefnyddiwyd i lywio'r Cynllun, gan gynnwys tystiolaeth yn ymwneud â chyrhaeddiad, asesu, cynnydd dysgwyr a thegwch.

50. A oes unrhyw dystiolaeth nad yw ar gael neu sy'n ansicr?
Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth o effeithiau gwahaniaethol. Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael sy'n ymwneud yn benodol â statws priodasol a phartneriaeth sifil yng nghyd-destun polisi llythrennedd a rhifedd, ond ni nodwyd unrhyw faterion sy'n awgrymu bod y nodwedd hon yn berthnasol i nodau'r Cynllun na'r broses o'i roi ar waith.

51. **Gyda phwy rydych wedi ymgysylltu, pam a sut?**
Ni chynhaliwyd unrhyw weithgarwch ymgysylltu penodol mewn perthynas â'r nodwedd warchodedig hon. Fodd bynnag, bwriedir i'r Cynllun roi fframwaith polisi strategol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru ac i fod o fudd i bob dysgwr. Fel y cyfryw, mae'n pennu'r cyfeiriad polisi cyffredinol yn hytrach na chynigion cyflawni manwl ar gyfer gweithgareddau unigol. Felly, mae gweithgarwch ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth, ymchwil a chyngor arbenigol i lywio'r cyfeiriad polisi a'r blaenoriaethau yn y Cynllun. Ni nodwyd unrhyw effeithiau gwahaniaethol sy'n gysylltiedig â phriodas a phartneriaeth sifil. Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac i ystyried unrhyw dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'r nodwedd warchodedig hon wrth gyflwyno, cynnal a gwerthuso gweithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun.

52. Sut mae tystiolaeth wedi effeithio ar eich cynnig?
Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn golygu bod angen gwneud newidiadau i'r cynnig. Wrth ystyried y nodwedd warchodedig hon, cadarnhawyd nad oes disgwyl i amcanion, camau gweithredu na threfniadau gweithredu'r Cynllun effeithio'n wahanol ar unigolion oherwydd statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

53. Beth yw effeithiau tebygol y cynnig?
Ni ddisgwylir i'r Cynllun gael unrhyw effaith wahaniaethol ar unigolion oherwydd statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

54. **Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau mwy o effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?**
Nid oes angen cymryd unrhyw gamau penodol. Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei roi ar waith yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a'i hymrwymiadau i

degwch, cynwysoldeb a chyfle cyfartal. Bydd effeithiau ar gydraddoldeb yn parhau i gael eu monitro drwy gydol y broses o roi'r Cynllun ar waith a bydd unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hystyried drwy weithgarwch adolygu a gwerthuso parhaus.

C. Cyhoeddi a Monitro

1. **A yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn barod i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru?**
   Ydy
2. **Os na allwch gyhoeddi'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, esboniwch pam**
3. **A yw'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ddiweddariad ar fersiwn a gyhoeddwyd yn flaenorol?** Na
4. **Sut y byddwch yn monitro ac yn gwerthuso cynnydd o ran y materion yn ymwneud â chydraddoldeb a nodir yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb?**
   Caiff cynnydd o ran y materion yn ymwneud â chydraddoldeb a nodir yn yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei fonitro drwy ddangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, data ar bresenoldeb ac absenoldeb cyson, asesiadau personol, data ar gyrhaeddiad a chynnydd, a threfniadau gwerthuso a gwella ysgolion ehangach. Pan fo'r data yn ddigon cadarn, cânt eu dadansoddi yn ôl nodweddion gwarchodedig a nodweddion perthnasol eraill dysgwyr er mwyn deall a yw deilliannau'n gwella mewn modd teg ac a yw bylchau mewn cyrhaeddiad yn culhau.

   Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried tystiolaeth o weithgarwch gwerthuso rhaglenni, gwaith monitro gweithgarwch gweithredu, adborth gan randdeiliaid ac ymchwil yn y dyfodol i asesu effaith y Cynllun ar grwpiau gwahanol o ddysgwyr.

   Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ei adolygu'n rheolaidd wrth roi'r Cynllun ar waith, a chaiff ei ddiweddaru, lle y bo'n briodol, yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, canfyddiadau gweithgarwch gwerthuso ac adborth gan randdeiliaid. Bydd effeithiau ar gydraddoldeb yn parhau i gael eu monitro drwy gydol y broses o roi'r Cynllun ar waith er mwyn nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol a phenderfynu a oes angen cymryd camau pellach i gefnogi'r grwpiau dan sylw.

   Bydd gweithgarwch monitro a gwerthuso hefyd yn ystyried sut mae'r broses o roi'r Cynllun ar waith yn cyfrannu at yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol perthnasol a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol 2025 i 2029, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â chyfleoedd i ffynnu, mynediad cyfartal at wasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel a chymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus. Bydd gwaith monitro hefyd yn gymorth i ystyried a yw'r Cynllun yn helpu i hyrwyddo cyfle cyfartal a lleihau anghydraddoldebau mewn deilliannau addysgol ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effeithiau ar gydraddoldeb yn parhau i gael eu hadolygu a bod y Cynllun yn parhau i gefnogi uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru o ran cydraddoldeb.

D. Awdurdodi

Datganiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr / Uwch Swyddog Cyfrifol:

Rwy'n fodlon bod effaith y cynnig wedi'i hasesu a'i chofnodi'n briodol yn unol â'r canllawiau, a bod y gofyniad i'w chyhoeddi wedi'i ystyried yn briodol.

Llofnod: Lloyd Hopkin

Adran: Cwricwlwm ac Asesu

Dyddiad: 17.09.26

2. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

1. Amcanion polisi

Pa gynnig rydych yn cynnal asesiad o'i effaith?
Mae'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yn sefydlu dull trawslywodraethol o wella deilliannau llythrennedd a rhifedd i blant yng Nghymru. Nod y Cynllun yw codi safonau ym maes llythrennedd a rhifedd, cryfhau cynnydd dysgwyr, lleihau bylchau mewn cyrhaeddiad a gwella tegwch ym mhob rhan o'r system addysg. Mae'n cydnabod bod llythrennedd a rhifedd yn sgiliau sylfaenol ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd ac yn nodi camau gweithredu sy'n cwmpasu plentyndod cynnar, addysg orfodol, teuluoedd, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

Mae'r Cynllun ar gael yma: Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol

Mae'r Cynllun yn rhoi fframwaith polisi cenedlaethol i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gefnogi i ddatblygu'r sgiliau llythrennedd a rhifedd sydd eu hangen arno i lwyddo, gan gynnig cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr y mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt, dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr amlieithog a grwpiau eraill y gall fod mwy o risg i'w deilliannau.

Mae'r Cynllun yn cynnwys gweithgareddau i gryfhau cymorth i rieni a gofalwyr, gwella presenoldeb a diddordeb, cefnogi datblygiad ymarferwyr, gwella'r defnydd o dystiolaeth a gwybodaeth asesu, a chryfhau dysgu a chynnydd yn y Gymraeg.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

2.1 Pa waith ymchwil a data ar blant a phobl ifanc sydd eisoes ar gael i lywio eich polisi penodol?
Mae'r dystiolaeth yn dangos bod deilliannau llythrennedd a rhifedd yn parhau i amrywio gormod ledled Cymru a bod bylchau mewn cyrhaeddiad o hyd ar gyfer rhai grwpiau o ddysgwyr. Mae adroddiadau Estyn, data cenedlaethol ar gyrhaeddiad, data ar bresenoldeb ac asesiadau personol yn dangos bod dysgwyr y mae tlodi, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), profiad o fod mewn gofal ac absenoldeb cyson yn effeithio arnynt yn fwy tebygol o gyflawni deilliannau addysgol gwaeth. Mae'r dystiolaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymyrryd yn gynnar, addysgu o ansawdd uchel, gweithgarwch ymgysylltu â theuluoedd cryf a chymorth wedi'i dargedu wrth wella deilliannau a lleihau anghydraddoldebau.

Mae tystiolaeth o Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3 a fersiwn ddrafft Siarad Gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (2026-2030) yn tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gynnar fel sylfaen i lythrennedd, dysgu a chynnydd addysgol. Mae tystiolaeth yn ymwneud â'r Fframwaith Dysgu fel Teulu ac Ysgolion Bro hefyd yn dangos y cyfraniad cadarnhaol y gall rhieni, gofalwyr a chymunedau ei wneud at ddatblygiad llythrennedd a rhifedd plant. Mae ymchwil ar ddysgu proffesiynol ac ymarfer addysgu effeithiol yn tynnu sylw pellach at bwysigrwydd gwybodaeth ymarferwyr, addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel wrth wella deilliannau dysgwyr.

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r Cynllun yn cynnwys:
• Patrymau Cyrhaeddiad mewn Darllen a Rhifedd (2018 i 2025).
• Data a gwaith dadansoddi Asesiadau Personol.
• Ystadegau ar bresenoldeb ac absenoldeb cyson.
• Canlyniadau Cyfrifiad Ysgolion 2026.
• Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Llwybrau Datblygu 0 i 3.
• Siarad gyda Fi - Cam 2: Cynllun Cyflawni Drafft ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2026-2030.
• Tystiolaeth yn ymwneud â'r Fframwaith Dysgu fel Teulu ac Ysgolion Bro.
• Tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag anghydraddoldebau addysgol a thlodi plant.
• Ymchwil yn ymwneud ag addysgu llythrennedd a rhifedd yn effeithiol, gan gynnwys dysgu proffesiynol a datblygiad ymarferwyr.
• Cyngor gan y Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd.

Bydd y Cynllun yn parhau i gael ei lywio gan waith monitro a gwerthuso parhaus, gan gynnwys dangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, data ar bresenoldeb a thystiolaeth asesu.

2.2 Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut rydych yn rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar grwpiau gwahanol o blant a phobl ifanc, gan gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol?

Disgwylir i'r Cynllun gael effaith gadarnhaol ar blant ledled Cymru drwy wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, cryfhau cynnydd a helpu mwy o ddysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer dysgu, gwaith a bywyd.

Disgwylir iddo gael effeithiau arbennig o gadarnhaol ar y canlynol:
• Dysgwyr y mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt.
• Dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
• Dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal.
• Plant y mae trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn effeithio arnynt.
• Dysgwyr ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu.
• Dysgwyr y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.
• Dysgwyr â phresenoldeb gwael neu sy'n ymddieithrio o addysg.
• Dysgwyr mwy abl a thalentog y mae angen her ychwanegol a chyfleoedd cyfoethogi arnynt.

Disgwylir i'r Cynllun hefyd fod o fudd i blant sy'n wynebu anfanteision niferus a chroestoriadol. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr y mae'n bosibl bod mwy nag un nodwedd warchodedig yn effeithio arnynt, neu ddysgwyr sy'n wynebu cyfuniad o anfantais, anabledd, profiad o fod mewn gofal, rhwystrau iaith, presenoldeb gwael neu ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â deilliannau addysgol gwaeth. Er mai prif ffocws y Cynllun yw taith y dysgwr o 0 i 16 oed, disgwylir i'r cynigion hefyd gefnogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg ôl-16, hyfforddiant a chyflogaeth drwy sicrhau deilliannau llythrennedd a rhifedd gwell a threfniadau pontio cryfach.

Disgwylir effeithiau cadarnhaol drwy wella dulliau addysgu a dysgu, cryfhau cymorth i deuluoedd, nodi anghenion dysgu yn gynt, darparu ymyriadau cyffredinol ac wedi'u

targedu, gwella presenoldeb, gwella trefniadau pontio rhwng cyfnodau dysgu a darparu cymorth mwy effeithiol i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar blant. Fodd bynnag, mae risg y gallai gwahaniaethau mewn prosesau gweithredu lleol effeithio ar gysondeb deilliannau ledled Cymru neu y gall rhai grwpiau o ddysgwyr gael llai o fudd os na chaiff ymyriadau wedi'u targedu eu rhoi ar waith yn gyson.

Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau i liniaru'r risgiau hyn drwy ganllawiau cenedlaethol, rhaglenni dysgu proffesiynol cenedlaethol, cymorth gan bartneriaid cyflawni cenedlaethol, monitro dangosyddion llythrennedd, rhifedd, presenoldeb a chynnydd yn barhaus, a gweithgarwch gwerthuso. Pan fo'r data yn ddigon cadarn, caiff deilliannau eu monitro ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr er mwyn deall a yw ymyriadau'n cyrraedd y rhai mwyaf anghenus ac a yw bylchau mewn cyrhaeddiad yn culhau dros amser. Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gweithlu a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r Cynllun yn helpu i ystyried unrhyw bwysau asesu neu lwyth gwaith ar ymarferwyr wrth roi'r Cynllun ar waith.

2.3 Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc rydych wedi'i ddefnyddio i lywio eich polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.

Datblygwyd y Cynllun drwy ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr polisi sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, y cwricwlwm ac asesu, safonau, gwella ysgolion, y Gymraeg, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), tegwch a chynwysoldeb ac ymgysylltu â theuluoedd. Mae hyn wedi'i ategu gan fewnbwn gan aelodau'r Panel Arbenigol Llythrennedd a'r Panel Arbenigol Rhifedd, ochr yn ochr ag ystyried data cenedlaethol ar gyrhaeddiad a phresenoldeb, tystiolaeth addysgol a chyngor gan bartneriaid cyflawni. Datblygwyd y fframwaith polisi mewn ymateb i heriau a nodwyd sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys deilliannau llythrennedd a rhifedd, bylchau mewn cyrhaeddiad, anghydraddoldebau addysgol a rhwystrau i gynnydd.

Nid yw plant wedi cael eu cynnwys yn uniongyrchol wrth ddatblygu'r Cynllun, a hynny gan mai fframwaith polisi cenedlaethol lefel uchel yw'r Cynllun sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth eang o bolisïau addysg, rhaglenni a gweithgareddau gwella sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chyflwyno un ymyrraeth newydd sydd wedi'i hanelu at grŵp penodol o ddysgwyr.

Gan na fu unrhyw ymgysylltu uniongyrchol â phlant, mae'r Cynllun wedi'i lywio gan dystiolaeth o ddeilliannau dysgwyr, patrymau presenoldeb, asesiadau personol, ymchwil addysgol, gweithgarwch gwerthuso rhaglenni a gwybodaeth gan randdeiliaid yn ymwneud â phrofiadau plant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r cyngor a roddwyd gan baneli arbenigol a phartneriaid cyflawni wedi'i lywio gan eu gwybodaeth am yr heriau sy'n effeithio ar ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau i gyrhaeddiad a chynnydd addysgol.

Caiff llawer o'r gweithgareddau penodol sy'n deillio o'r Cynllun eu datblygu a'u rhoi ar waith dros amser drwy raglenni, canllawiau, adnoddau a threfniadau cyflawni ar wahân. Lle y bo'n briodol, cynhelir gweithgarwch ymgysylltu, asesiadau effaith a phrosesau gwerthuso penodol mewn perthynas â'r gweithgareddau hynny, gan gynnwys cyfleoedd i gynnwys plant a phobl ifanc wrth eu datblygu a'u hadolygu.

Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais cryf ar gynnydd dysgwyr, tegwch, cynwysoldeb a gwella deilliannau i grwpiau y mae anfantais addysgol yn effeithio'n anghymesur arnynt, gan gynnwys dysgwyr y mae tlodi yn effeithio arnynt, dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr amlieithog a'r rhai â phresenoldeb gwael neu sy'n ymddieithrio o addysg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd Erthygl 12 o CCUHP a gwerth cyfranogiad dysgwyr wrth ddatblygu polisïau a'u hadolygu. Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, ystyrir cyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr, ysgolion, sefydliadau cynrychioliadol a rhanddeiliaid eraill i lywio'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun, ei roi ar waith, a'i fonitro, a'i adolygu yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu hystyried wrth i'r broses o roi'r Cynllun ar waith ddatblygu ac wrth wneud penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

3.1 Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Disgwylir i'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a nodir yn y Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol gael effaith gadarnhaol sylweddol ar blant ledled Cymru.
Bwriedir i'r cynigion wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, cryfhau cynnydd dysgwyr a chefnogi plant i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo mewn addysg, cyflogaeth ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

Drwy ddatblygu manylion am lythrennedd a rhifedd o flwyddyn i flwyddyn, y bwriad yw sicrhau mwy o eglurder a chysondeb mewn perthynas â chynnydd dysgwyr. Disgwylir i hyn gryfhau mynediad plant at addysg o ansawdd uchel drwy gefnogi disgwyliadau cyson, llywio dulliau addysgu ac asesu a sicrhau bod modd nodi dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynt.

Disgwylir effeithiau arbennig o gadarnhaol drwy'r canlynol:
• Gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd.
• Nodi anghenion dysgu a rhwystrau i ddysgu yn gynt.
• Gwella cynnydd dysgwyr drwy gydol y continwwm 0 i 16 oed.
• Cryfhau cymorth i ddysgwyr y mae tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt.
• Gwella cymorth i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
• Gwella cymorth o ran datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu.
• Gwella presenoldeb a diddordeb mewn dysgu.
• Gwella cymorth i ddysgwyr amlieithog, gan gynnwys dysgwyr y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.
• Cryfhau cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a gwneud cynnydd.
• Gwella cymorth i ddysgwyr mwy abl a thalentog y mae angen mwy o her a chyfleoedd cyfoethogi arnynt.
• Cryfhau gweithgarwch ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau mewn perthynas â dysgu a datblygiad plant.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Fodd bynnag, mae risgiau posibl yn gysylltiedig â phrosesau gweithredu anghyson ledled Cymru, mynediad anghyfartal at ymyriadau a chymorth, a phwysau asesu a llwyth gwaith cynyddol ar ymarferwyr.

Caiff risgiau eu lliniaru drwy'r canlynol:
• Canllawiau cenedlaethol a deunydd cymorth.
• Cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol a ddarperir drwy Dysgu a phartneriaid cenedlaethol eraill.
• Cymorth cenedlaethol gan Adnodd, CAL:ON a phartneriaid cyflawni ehangach.
• Monitro dangosyddion llythrennedd, rhifedd, presenoldeb a chynnydd yn barhaus.
• Dadansoddi canlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol o ddysgwyr pan fo'r data yn ddigon cadarn.
• Trefniadau gwella ysgolion a gweithgarwch gwerthuso.
• Ymgysylltu ag ymarferwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau rhanddeiliaid yn barhaus.
• Adolygu'r effeithiau ar y gweithlu drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gweithlu a ddatblygwyd ochr yn ochr â'r Cynllun.

Caiff yr Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant ei adolygu'n barhaus wrth roi'r Cynllun ar waith, a chaiff ei ddiweddaru, lle y bo'n briodol, yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg, canfyddiadau gweithgarwch gwerthuso ac adborth gan randdeiliaid.

3.2 Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol?
Disgwylir i'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar hawliau plant. Nod y Cynllun yw gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd, lleihau anghydraddoldebau o ran cyrhaeddiad addysgol a chefnogi pob dysgwr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arno i lwyddo mewn addysg, cyflogaeth a bywyd yn ehangach. Ystyrir bod Erthyglau canlynol CCUHP yn arbennig o berthnasol.

Erthygl 1: Diffinio'r Plentyn
Effaith: Cadarnhaol
Prif nod y Cynllun yw cefnogi plant drwy gydol eu taith fel dysgwr o 0 i 16 oed. Mae'r effeithiau ar ddysgwyr hŷn, gan gynnwys y rhai rhwng 16 a 18 oed, wedi'u hystyried hefyd, yn enwedig mewn perthynas â symud ymlaen i addysg ôl-16, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'r Cynllun yn cynnwys ymrwymiadau i weithio gyda darparwyr ôl-16 i gefnogi parhad a chynnydd.

Erthygl 2: Peidio â gwahaniaethu
Effaith: Cadarnhaol Gref
Mae lleihau anghydraddoldebau o ran deilliannau yn un o amcanion canolog y Cynllun. Mae'n cynnwys cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr y mae tlodi yn effeithio arnynt, dysgwyr ag ADY, dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr amlieithog, dysgwyr ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a'r rhai â phresenoldeb gwael neu sy'n ymddieithrio o addysg. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod bod rhai plant yn wynebu nifer o anfanteision a rhai sy'n gorgyffwrdd, y mae angen cymorth wedi'i deilwra i fynd i'r afael â nhw.

Erthygl 3: Lles Pennaf y Plentyn
Effaith: Cadarnhaol
Datblygwyd y Cynllun i wella deilliannau addysgol, cynnydd dysgwyr, llesiant a chyfleoedd bywyd yn y dyfodol. Mae ei ffocws ar ymyrryd yn gynnar, ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, addysgu o ansawdd uchel a chymorth wedi'i dargedu yn adlewyrchu'r egwyddor y dylai lles pennaf plant fod yn brif ystyriaeth.

Erthygl 6: Bywyd, Goroesi a Datblygu
Effaith: Cadarnhaol Gref
Mae llythrennedd a rhifedd yn sylfeini hanfodol i ddatblygiad addysgol, cymdeithasol a phersonol plant. Mae'r Cynllun yn cefnogi datblygiad plant drwy addysgu gwell, llwybrau cynnydd cryfach, cymorth gwell a mwy o gyfleoedd i gyflawni deilliannau addysgol cadarnhaol.

Erthygl 12: Parchu Safbwyntiau'r Plentyn
Effaith: Cadarnhaol
Nid yw plant wedi cael eu cynnwys yn uniongyrchol wrth ddatblygu'r Cynllun, a hynny gan mai fframwaith strategol lefel uchel yw'r Cynllun sy'n pennu'r cyfeiriad cyffredinol ar gyfer gwella deilliannau llythrennedd a rhifedd ledled Cymru, yn hytrach na chyflwyno un ymyrraeth newydd sydd wedi'i hanelu at grŵp penodol o ddysgwyr. O ganlyniad, asesir bod effeithiau'r Cynllun yn erbyn yr Erthygl hon yn gadarnhaol yn hytrach na chadarnhaol iawn.

Mae'r Cynllun wedi'i lywio gan dystiolaeth yn ymwneud â deilliannau dysgwyr, presenoldeb, cyrhaeddiad, cynnydd a phrofiadau addysgol, ynghyd â chyngor gan baneli arbenigol a phartneriaid cyflawni cenedlaethol. Mae'r Cynllun yn rhoi pwyslais cryf ar gynnydd dysgwyr, tegwch a chynwysoldeb, gyda'r nod o wella deilliannau i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu rhwystrau i gyflawniad addysgol.

Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr, ysgolion, sefydliadau cynrychioliadol a grwpiau rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun, ei roi ar waith, ei werthuso, a'i fireinio yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod safbwyntiau plant yn cael eu hystyried wrth i'r broses o roi'r Cynllun ar waith ddatblygu ac wrth i weithgareddau sy'n deillio o'r Cynllun gael eu rhoi ar waith.

Erthygl 13: Rhyddid Mynegiant
Effaith: Cadarnhaol
Mae sgiliau llythrennedd gwell yn cryfhau gallu plant i fynegi eu hunain yn effeithiol, cyfleu eu barn a chymryd rhan fwy llawn wrth ddysgu ac yn y gymdeithas ehangach. Bydd cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch am y Cynllun yn helpu plant i ddeall y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael**.**

Erthygl 17: Mynediad at Wybodaeth
Effaith: Cadarnhaol
Mae llythrennedd gwell yn cefnogi gallu plant i gael gafael ar wybodaeth addysgol, diwylliannol a chymdeithasol sy'n cyfrannu at eu dysgu, eu cyfranogiad, eu datblygiad a'u llesiant.

Erthygl 18: Cyfrifoldebau Rhieni a Chymorth
Effaith: Cadarnhaol
Mae'r Cynllun yn cydnabod mai rhieni a gofalwyr yw addysgwyr cyntaf plant ac yn cynnwys mesurau i gryfhau diddordeb teuluoedd yn nysgu eu plant. Disgwylir i gamau gweithredu sy'n ymwneud â dysgu fel teulu, ymgysylltu â'r gymuned a chymorth llythrennedd a rhifedd i oedolion fod o fudd i blant.

Erthygl 23: Plant ag Anableddau

Effaith: Cadarnhaol Gref
Mae'r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu penodol i gefnogi dysgwyr ag ADY, gan gynnwys nodi anghenion yn well, cryfhau cyfleoedd dysgu proffesiynol, gwella adnoddau asesu dwyieithog, gwella trefniadau pontio a chryfhau'r gallu i gael cymorth. Bwriedir i'r mesurau hyn wella profiadau a deilliannau i ddysgwyr anabl a dysgwyr ag ADY.

Erthygl 28: Yr Hawl i Gael Addysg
Effaith: Cadarnhaol Gref
Mae'r Cynllun yn cefnogi hawl plant i gael addysg yn uniongyrchol drwy wella deilliannau llythrennedd a rhifedd a sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael mynediad at addysg, cymryd rhan ynddi a chael budd ohoni. Mae'r ffocws ar bresenoldeb, cynnydd, ymyrryd yn gynnar a lleihau rhwystrau i ddysgu yn cefnogi cyfleoedd addysgol tecach.

Erthygl 29: Nodau Addysg
Effaith: Cadarnhaol Gref
Mae'r Cynllun yn helpu i feithrin doniau, galluoedd a photensial plant drwy wella sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'n cyd-fynd â dibenion y Cwricwlwm i Gymru ac yn ceisio cefnogi plant i ddod yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol a all gymryd rhan lawn mewn cymdeithas ac yn yr economi.

Erthygl 30: Plant o Grwpiau Lleiafrifol
Effaith: Cadarnhaol
Mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau i gefnogi dysgwyr amlieithog a dysgwyr y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae hefyd yn cryfhau cynnydd yn y Gymraeg ac yn cydnabod cryfderau ieithyddol a diwylliannol dysgwyr o gefndiroedd amrywiol mewn addysg.

Erthygl 42: Gwybodaeth am Hawliau Plant
Effaith: Cadarnhaol
Gall y Cynllun greu cyfleoedd i gryfhau cyfranogiad a llais y dysgwr, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant mewn lleoliadau addysgol. Caiff cyfleoedd i hyrwyddo hawliau plant, cyfranogiad dysgwyr a dealltwriaeth o CCUHP drwy weithgarwch gwella ysgolion, canllawiau a dulliau ymgysylltu â dysgwyr eu hystyried wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith.

Yn gyffredinol, disgwylir i'r Cynllun gael effaith gadarnhaol gref ar hawliau plant, yn enwedig mewn perthynas â pheidio â gwahaniaethu, addysg, datblygiad, cynhwysiant a chyfle cyfartal. Wrth ddatblygu'r asesiad hwn, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Arsylwadau Terfynol perthnasol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mewn perthynas ag addysg a chyfranogiad plant, ochr yn ochr â Sylw Cyffredinol Rhif 1 (Nodau Addysg), Sylw Cyffredinol Rhif 9 (Hawliau Plant ag Anghydraddoldebau) a Sylw Cyffredinol Rhif 12 (Yr Hawl i'r Plentyn Gael ei Glywed).

3. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

- Rhoddir gwybod i'r Gweinidog am yr effeithiau cadarnhaol ar blant, risgiau posibl rhoi'r Cynllun ar waith, a'r mesurau lliniaru a gynigir.

4. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- Caiff y gofynion o ran cyhoeddi a chyfieithu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant eu hystyried yn unol â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys Safon 47, a chyngor gan Dîm Safonau'r Gymraeg. Yn amodol ar y gofynion hynny, caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol.

5. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Os ydych wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut y byddwch yn rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?
Gan na chafodd plant eu cynnwys yn uniongyrchol wrth ddatblygu'r Cynllun, nid oes unrhyw ymrwymiadau penodol i roi adborth uniongyrchol i gyfranogwyr.

Ar ôl i'r Cynllun gael ei gyhoeddi, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir rhannu gwybodaeth am y Cynllun mewn ffyrdd sy'n hygyrch ac yn berthnasol i blant a'u rhieni/gofalwyr.

Gall hyn gynnwys:
• Crynodebau addas i ddysgwyr a/neu negeseuon am ddisgwyliadau dysgu.
• Gwybodaeth ac adnoddau dwyieithog.
• Cyfathrebu drwy borth rhieni Hwb, ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni.
• Defnyddio rhwydweithiau a dulliau ymgysylltu â dysgwyr sy'n bodoli eisoes.
• Gwybodaeth a roddir i blant drwy weithgarwch ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned.

Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, caiff cyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr a sefydliadau cynrychioliadol eu harchwilio i lywio'r broses o'i gyflawni a gweithgareddau yn y dyfodol a chefnogi unrhyw waith i adolygu'r Cynllun a'i fireinio yn y dyfodol.

Monitro ac Adolygu

7.1 Amlinellwch pa ddulliau monitro ac adolygu y byddwch yn eu rhoi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.
Caiff yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ei adolygu'n barhaus wrth roi'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol ar waith, a chaiff ei ddiweddaru, lle y bo'n briodol, yng ngoleuni tystiolaeth bellach sy'n dod i'r amlwg.

Caiff y broses o roi'r Cynllun ar waith ei monitro drwy:

- Dangosyddion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.
- Data ar bresenoldeb ac absenoldeb cyson.
- Gwybodaeth asesiadau personol
- Dadansoddi bylchau mewn cyrhaeddiad rhwng grwpiau gwahanol o ddysgwyr.
- Prosesau gwella ysgolion a hunanwerthuso.
- Gweithgarwch gwerthuso rhaglenni ac adborth gan randdeiliaid.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio ymchwil, gwaith monitro prosesau gweithredu a gweithgarwch ymgysylltu ag ymarferwyr, partneriaid cyflawni a grwpiau rhanddeiliaid cynrychioliadol i asesu a yw'r Cynllun yn cefnogi deilliannau cadarnhaol i blant ac yn hyrwyddo hawliau plant. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio'r gwaith o adolygu a mireinio'r Cynllun a'r asesiadau effaith cysylltiedig yn y dyfodol.

Bydd gweithgarwch adolygu hefyd yn ystyried adborth gan ddysgwyr, ysgolion, sefydliadau cynrychioliadol a rhanddeiliaid, ochr yn ochr ag Arsylwadau Terfynol a Sylwadau Cyffredinol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn sy'n berthnasol i addysg, cyfranogiad a chynwysoldeb. Rhoddir sylw arbennig i Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chyfleoedd i gryfhau cyfranogiad dysgwyr wrth roi'r Cynllun ar waith a'i adolygu yn y dyfodol.

7.2 Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu'r trefniadau ar gyfer ei roi ar waith?
Mae'r adolygiad o'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi nodi nifer o feysydd sydd wedi llywio'r dull asesu a gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi mwy o ystyriaeth i blant sy'n wynebu nifer o anfanteision a rhai sy'n gorgyffwrdd, yr effeithiau posibl ar grwpiau oedran gwahanol, gan gynnwys dysgwyr 16 i 18 oed, pwysigrwydd monitro'r broses o roi'r Cynllun ar waith er mwyn sicrhau cyfleoedd teg i gael cymorth, a chyfleoedd i gryfhau cyfranogiad dysgwyr wrth roi'r Cynllun ar waith a'i adolygu yn y dyfodol.

Er nad oes unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r polisi ei hun wedi'u nodi ar hyn o bryd, mae'r asesiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwaith monitro, gwerthuso ac ymgysylltu parhaus i sicrhau bod y buddiannau a fwriadwyd yn cael eu gwireddu i bob dysgwr. Rhoddir sylw arbennig i ddeilliannau grwpiau y mae anfantais addysgol yn effeithio'n anghymesur arnynt, gan gynnwys dysgwyr y mae tlodi yn effeithio arnynt, dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal, dysgwyr amlieithog a'r rhai â phresenoldeb gwael neu sy'n ymddieithrio o addysg.

Wrth i'r Cynllun gael ei roi ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â dysgwyr, ysgolion, sefydliadau cynrychioliadol a grwpiau rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun, ei roi ar waith, ei werthuso, a'i fireinio yn y dyfodol. Caiff unrhyw faterion, risgiau neu gyfleoedd a nodir drwy'r broses o'i roi ar waith, gweithgarwch gwerthuso, adborth gan randdeiliaid neu waith monitro parhaus eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu. Lle y bo angen, caiff camau gweithredu polisïau, canllawiau neu drefniadau gweithredu eu diwygio er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn parhau i hyrwyddo hawliau plant, gwella deilliannau addysgol a lleihau anghydraddoldebau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Casgliad cyffredinol yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant
Disgwylir i'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol gael effaith gadarnhaol gref ar blant ac mae'n cefnogi nifer o hawliau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn CCUHP, yn enwedig mewn perthynas â pheidio â gwahaniaethu, datblygiad, addysg, cyfranogiad a chymorth i helpu plant i wireddu eu potensial yn llawn. Disgwylir i'r Cynllun gyfrannu'n gadarnhaol at Erthyglau 1, 2, 3, 6, 12, 13, 17, 18, 23, 28, 29, 30 a 42 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) drwy ganolbwyntio ar wella deilliannau llythrennedd a rhifedd, lleihau anghydraddoldebau a chefnogi pob dysgwr i wneud cynnydd a ffynnu.